

CYNGOR CYMUNED PENTREFOELAS COMMUNITY COUNCIL

Cadeirydd: Gari B Jones

Nos Lun Medi 4ydd 2017 am 7.30 y.h.

Cofnodion

1. **Ymddiheuriadau:** Cyng. Gerallt Jones
2. **Presennol:** Cyng. Gari Jones, Alun Owen, Edmund Rees, Gwynfor Roberts, Paul Weston a'r Cynghorydd Sirol Garffild Lewis ac Enid Williams (Clerc)
3. **Datgan Cysylltiad:** Neb yn datgan diddordeb.
4. **Cofnodion mis Gorffennaf:** cynigiwyd yn gywir gan Edmund Rees gyda Gwynfor Roberts yn eilio.
5. **Materion y Codi o'r Cofnodion:-**
 - 5.1. BDO – anfoneb 2015-16 – cynigiodd Paul Weston gyda phawb yn gytûn gadael yr anfoneb heb ei dalu gan nad ydym wedi cael ateb hyd yma i'n llythyr.
6. **Gohebiaeth:**
 - 6.1 C.B.S.C. – wedi derbyn yr ail daliad o'r presept sef £1,300.00.
7. **Monitro'r Gyllideb:**

Ar ôl archwilio'r Gyllideb ac ar gynigiad Paul Weston gyda Edmund Rees yn eilio a phawb yn gytûn cafwyd popeth yn gywir ac mewn trefn.
8. **Zurich:**

Cynigiodd Paul Weston gyda Edmund Rees yn eilio a phawb yn gytûn talu'r yswiriant am eleni o **£271.57** gyda siec rhif **100307**.
9. **Archwilydd Mewnol:**

Cynigiodd Gwynfor Roberts gyda Paul Weston yn eilio cydnabod Eirian Roberts am ei gwaith o archwilio'r llyfrau gyda **£50.00** a thalwyd gyda siec rhif **100306**.
10. **BDO Archwilwyr Allanol:**

Edrychwyd dros y fantolen orffenedig a'i derbyniwyd ar gynigiad Alun Owen gyda Paul Weston yn eilio a phawb yn gytûn.
11. **Talu Anfonebau:**
 - 11.1. BDO – am flwyddyn 2016-17 cynigiodd Gwynfor Roberts gydag Alun Owen yn eilio a phawb yn gytûn talu'r anfoneb o **£189.15** gyda siec rhif **100308**.
 - 11.2. Costau'r clerics am 4 mis o Ebrill i Orffennaf cynigiodd Paul Weston gyda Gwynfor Roberts yn eilio talu'r anfoneb o **£230.00** gyda siec rhif **100305**.
12. **Diwygio Deddfwriaeth Diogelu Data:**

Anfonwyd copi allan i'r Cynghorwyr edrych drosodd ond penderfynwyd anfon at Un Ilaith Cymru yn mynegi ein somiant nad oedd copi o'r Gymraeg ar gael.
13. **Gair gan y Cyng. Garffild Lewis.** Dywedodd fod Cymhorthfa wedi ei drefnu yn y pentref ar ddydd Sadwrn Medi 23ain. Cafwyd wybod ei fod wedi cael gair pellach gyda'r heddlu ynglŷn ar fater o or-yrru ar yr A543 a bod rhaglen i fod gan y BBC yn trafod y mater. Mae hefyd mewn trafodaeth gyda'r Cyngor Sir ynglŷn cael 20 milltir yr awr heibio'r ysgol gynradd.
14. **Unrhyw fater arall:**
 - 14.1. Dim
15. **Dyddiad y cyfarfod nesaf nos Lun Hydref 2ail 2017 am 7.30 y.h.**

Arwyddwyd _____

G B Jones

Cadeirydd

Dyddiad _____

14.12.2017

